

Diwrnod Ymchwil mewn Ysgol

BA2

02/03/20

Rhesymwaith

Mae'r Diwrnod Ymchwil yn yr Ysgol yn rhan bwysig o'r **Modwl ECAD5010C – Ymchwilio i'r Dysgu – beth, sut a pham rydw i'n addysgu?** Nod y modiwl yw **datblygu sgiliau ymchwilio darpar athrawon** drwy ddarparu cyfle iddynt greu holiadur, cwestiynau cyfweiliad a thempled cofnodi arsylwad ac yna treialu'r offer ymchwilio yn yr ysgol (h.y. Ysgol PAP2).

Rhoddir y cwestiwn ymchwil cyffredinol hyn i'r darpar athrawon, 'Beth yw barn plant ac athrawon o Asesu ar gyfer Dysgu (AagD)?' Ar gyfer yr aseinaid mae rhaid i'r darpar athrawon ddewis agwedd benodol o AagD (e.g. rhoi adborth, gofyn cwestiynau) ac yna **dylunio, treialu a gwerthuso'n feirniadol yr offer ymchwilio**.

Cyn y Diwrnod Ymchwil yn yr Ysgol bydd y darpar athrawon wedi cynllunio eu offer ymchwilio, h.y. yr holiadur, cwestiynau cyfweld a thaflen arsylwad, ac wedi cwblhau ffurflen foeseg.

Yn ystod y Diwrnod Ymchwil yn yr Ysgol dylai'r darpar athrawon wneud y canlynol:

- Dosbarthu a chasglu holiadur (staff a/neu plant yr ysgol)
- Cyfweld grwp o blant (dosbarth PAP2) a/neu staff yr ysgol
- Arsylwi grwp o blant (dosbarth PAP2)

Yn dilyn y 'Diwrnod Ymchwil yn yr Ysgol', bydd y darpar athrawon yn **gwerthuso'n feirniadol gwerth y dulliau ymchwilio** hyn. Nid y data fydd y prif ffocws, ond yn hytrach y dyluniad ymchwil, h.y. effeithiolrwydd yr offer ymchwilio.

Côd ymddygiad ac ymarfer proffesiynol CGA

Disgwylir i bob un o'r rhanddeiliaid sy'n rhan o'r Diwrnod Ymchwil ddilyn gofynion proffesiynol athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg.

<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer-proffesiynol-cga.html>

Disgwylir iddynt hefyd gydymffurfio â Chanllawiau **BERA Ethical Guidelines for Educational Research** (2018) <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018> ac **Cod Ymarfer Moeseg ac Integreidd Ymchwil PCYDDS** [UWTSD Research Ethics & Integrity Code of Practice](#)

Llythyr i'r ysgol i'w ddosbarthu i rieni/gwarcheidwaid

Ymchwil yn y dosbarth gyda darpar athrawon

Moeseg Ymchwil

Efallai y bydd gofyn i ddarpar athrawon ymgymryd ag ymchwil ar raddfa fach yn yr ystafell ddosbarth er mwyn cwblhau aseiniadau.

Dylai'r llythyr canlynol gael ei hysbysu i rieni / gwarcheidwaid fel y caniateir caniatâd gwybodus neu gais i dynnu'n ôl o'r ymchwil sy'n cael ei wneud.

Mae'r ysgol hon yn bartner gyda'r bartneriaeth dysgu proffesiynol sy'n rhan o'r Athrofa ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin ac Abertawe. Mae'r ysgol hon yn cynnig lleoliadau i fyfyrwyr sy'n dysgu bod yn athrawon. Pan fydd athrawon dan hyfforddiant yn gweithio yn yr ysgol maent bob amser dan oruchwyliaeth yr athro dosbarth. Pwrpas y llythyr hwn yw eich hysbysu y bydd yn ofynnol i athrawon dan hyfforddiant, fel rhan o'u hasesiad yn y Brifysgol, werthuso arfer yn y dosbarth. Weithiau bydd hyn ar ffurf gwerthusiad neu asesiad ysgrifenedig o waith plentyn a gall hefyd olygu gofyn i staff a phlant am eu safbwyntiau. Nid yw'r gweithgaredd hwn yn wahanol i arfer dosbarth arferol.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y gwaith sy'n mynd ymlaen yn nosbarth eich plentyn, mae croeso i chi ofyn i'r athro dosbarth. Yn dilyn y drafodaeth hon, os penderfynwch nad ydych am i'ch plentyn gymryd rhan mewn unrhyw werthusiad dosbarth a gynhelir gan athrawon dan hyfforddiant, yna rhowch wybod i'r athro dosbarth.

Os hoffech ragor o wybodaeth am addysg gychwynnol a hyfforddiant athrawon newydd cysylltwch â'r Swyddfa Bartneriaeth trwy uwch weinyddwr y Ganolfan , Christine Rees. Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y wybodaeth hon.

Ffurflen Caniatâd ECAD5010C

Rhaid i ddarpar athrawon gael y caniatâd ysgrifenedig canlynol gan y pennaeth cyn treialu eu dulliau ymchwilio.

I'w gwblhau gan yr ysgol:

Rwy'n cytuno y gall _____ fel cynrychiolydd o'r Athrofa:

-Dynnu lluniau (Ticiwch fel y bo'n briodol)

-Cyfweld

-Cymryd fideo

-Arsylwi

-Dyfynnu dogfennau polisi'r ysgol

-Recordio

-Cynnal holiaduron

Enw'r Pennaeth _____ Llofnod _____

Enw'r ysgol _____

I'w gwblhau gan y darpar athro/awes:

Os caf i ganiatâd o'r fath, cytunaf i gadw at y foeseg sydd wedi'i hymgorffori yng Nghod Ymarfer CGA a Chanllawiau Moeseg BERA (2018) ac ni fyddaf yn dosbarthu unrhyw ddeunydd o'r fath i gynulleidfaoedd y tu hwnt i awdurdodau'r Brifysgol heb eu caniatâd.

Enw'r darpar athrawes/athro:

Llofnod:

Cyfeiriad e-bost PCYDDS:

Rhaglen (e.e. BA Add/TAR Cynradd):

Dyddiad: